



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2021 Rhif 20 (Cy. 7)

2021 No. 20 (W. 7)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol a Chyfyngiadau)
(Diwygio) (Cymru) 2021**

**The Health Protection
(Coronavirus, International Travel
and Restrictions) (Amendment)
(Wales) Regulations 2021**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Part 2A of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 enables the Welsh Ministers, by regulations, to make provision for the purpose of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection or contamination in Wales.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a ledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609) (Cy. 335)) (y "Rheoliadau Cyfyngiadau".

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/574 (W. 132)) (the "International Travel Regulations") and the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1609) (W. 335)) (the "Restrictions Regulations").

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

The International Travel Regulations have been previously amended by:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);

- the Health Protection (Coronavirus, Public Health Information for Persons Travelling to Wales etc.) Regulations 2020 (S.I. 2020/595) (W. 136);

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/840) (Cy. 185);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/868) (Cy. 190);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/886) (Cy. 196);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/917) (Cy. 205);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2020 (O.S. 2020/944) (Cy. 210);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 (O.S. 2020/962) (Cy. 216);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2020 (O.S. 2020/981) (Cy. 220);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2020 (O.S. 2020/1015) (Cy. 226);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020 (O.S. 2020/1042) (Cy. 231);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Public Health Information to Travellers) (Wales) (Amendment) Regulations 2020 (S.I. 2020/714) (W. 160);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) Regulations 2020 (S.I. 2020/726) (W. 163);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2020 (S.I. 2020/804) (W. 177);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 3) Regulations 2020 (S.I. 2020/817) (W. 179);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 4) Regulations 2020 (S.I. 2020/840) (W. 185);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 5) Regulations 2020 (S.I. 2020/868) (W. 190);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 6) Regulations 2020 (S.I. 2020/886) (W. 196);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 7) Regulations 2020 (S.I. 2020/917) (W. 205);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 8) Regulations 2020 (S.I. 2020/944) (W. 210);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 9) Regulations 2020 (S.I. 2020/962) (W. 216);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 10) Regulations 2020 (S.I. 2020/981) (W. 220);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 11) Regulations 2020 (S.I. 2020/1015) (W. 226);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 12) Regulations 2020 (S.I. 2020/1042) (W. 231);

- Gorchymyn Trosoglwyddo Swyddogaethau (Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, Materion y Gymanwlad a Materion Datblygu) 2020 (O.S. 2020/942);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020 (O.S. 2020/1080) (Cy. 243);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2020 (O.S. 2020/1098) (Cy. 249);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2020 (O.S. 2020/1133) (Cy. 258);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2020 (O.S. 2020/1165) (Cy. 263);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020 (O.S. 2020/1191) (Cy. 269);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020 (O.S. 2020/1223) (Cy. 277);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020 (O.S. 2020/1232) (Cy. 278);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1237) (Cy. 279);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1288) (Cy. 286);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020 (O.S. 2020/1329) (Cy. 295);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2020 (O.S. 2020/1362) (Cy. 301);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1477) (Cy. 316);
- the Transfer of Functions (Secretary of State for Foreign, Commonwealth and Development Affairs) Order 2020 (S.I. 2020/942);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 13) Regulations 2020 (S.I. 2020/1080) (W. 243);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 14) Regulations 2020 (S.I. 2020/1098) (W. 249);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 15) Regulations 2020 (S.I. 2020/1133) (W. 258);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 16) Regulations 2020 (S.I. 2020/1165) (W. 263);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 17) Regulations 2020 (S.I. 2020/1191) (W. 269);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 18) Regulations 2020 (S.I. 2020/1223) (W. 277);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 19) Regulations 2020 (S.I. 2020/1232) (W. 278);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Restrictions) (Amendment) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1237) (W. 279);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Restrictions) (Amendment) (No. 2) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1288) (W. 286);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 20) Regulations 2020 (S.I. 2020/1329) (W. 295);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 21) Regulations 2020 (S.I. 2020/1362) (W. 301);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Restrictions) (Amendment) (No. 3) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1477) (W. 316);

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/1521) (Cy. 325);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 22) 2020 (O.S. 2020/1602) (Cy. 332); a
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1645) (Cy. 345).

Mae'r Rheoliadau Cyfyngiadau wedi eu diwygio yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/1610) (Cy. 336);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/1623) (Cy. 340); a
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1645) (Cy. 345).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau hynny.

Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemtio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt. Mae rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor y cofnodion ar gyfer Dinas Jerwsalem, Gweriniaeth Botswana, Israel, Mauritius a Seychelles.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd a'r tiriogaethau hyn. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

- the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Public Health Information to Travellers) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2020 (S.I. 2020/1521) (W. 325);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 22) Regulations 2020 (S.I. 2020/1602) (W. 332); and
- the Health Protection (Coronavirus, South Africa) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1645) (W. 345).

The Restrictions Regulations have been previously amended by:

- the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) (Amendment) Regulations 2020 S.I. 2020/1610 (W. 336);
- the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2020 S.I. 2020/1623 (W. 340); and
- the Health Protection (Coronavirus, South Africa) (Wales) Regulations 2020 S.I. 2020/1645 (W. 345).

The International Travel Regulations impose requirements on persons entering Wales after having been abroad. They include a requirement for persons arriving in Wales to isolate for a period determined in accordance with those Regulations.

The requirements imposed by the International Travel Regulations are subject to exceptions, and certain categories of person are exempt from having to comply.

Persons entering Wales after being in one or more of the countries and territories listed in Schedule 3 to the International Travel Regulations are not required to isolate. The countries and territories listed in Schedule 3 are referred to as "exempt countries and territories".

Part 2 of these Regulations amends the list of exempt countries and territories. Regulation 2 amends the International Travel Regulations to remove the entries for the City of Jerusalem, Israel, Mauritius, the Republic of Botswana and Seychelles.

Regulation 3 of these Regulations makes transitional provision in connection with these countries' and territories' change of status. The transitional provision addresses a potential area of doubt in terms of the effect on the operation of the International Travel Regulations, of the amendments made by regulation 2 of these Regulations.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhannau 3 a 3B o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ac yn mewnosod Rhan 3C ac Atodlen 3A newydd yn y Rheoliadau hynny. Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn hepgor rheoliad 12C o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol sy'n gosod rheolau arbennig ar unrhyw berson sy'n teithio o Dde Affrica ac aelodau o aelwyd y person hwnnw. Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth arbed mewn cysylltiad â hepgor rheoliad 12C o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliad 6 yn hepgor rheoliad 12D yn Rhan 3B o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliadau 12E a 12F ac Atodlen 3A newydd yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliad 7(1) yn mewnosod darpariaeth newydd sy'n ymwneud â mesurau ychwanegol ar gyfer gwledydd a thiriogaethau penodedig yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar ffurf rheoliad 12E newydd. Mae'r rheoliad 12E newydd yn debyg i'r rheoliad 12C blaenorol, ond nid yw'n benodol i Dde Affrica. Yn hytrach, mae'n gosod mesur ychwanegol ar wledydd a thiriogaethau a restrir yn yr Atodlen 3A newydd. Mae rheoliad 12E yn darparu, pan fo person wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth benodedig yn ystod y 10 niwrnod diwethaf ac yn cyrraedd Cymru ar 9 Ionawr 2021 neu wedi hynny, ei bod yn ofynnol i'r person ac aelodau ei aelwyd ynysu. At hynny, nid yw'r categorïau o bersonau esempt fel y'u disgrifir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gymwys, a chaiff person adael ynysiad o dan amgylchiadau mwy cyfyngedig. Mae rheoliad 7(1) hefyd yn mewnosod rheoliad 12F newydd, sy'n gosod cyfyngiad ar awyrennau a llestrau sy'n cyrraedd yn uniongyrchol o wlad a restrir yn yr Atodlen 3A newydd.

Mae rheoliad 7(2) yn mewnosod Atodlen 3A newydd yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sy'n rhestru'r gwledydd a'r tiriogaethau penodedig hynny sy'n ddarostyngedig i'r mesurau ychwanegol yn rheoliadau 12E a 12F o'r Rheoliadau hynny. Mae rheoliad 7(2) yn rhestru'r gwledydd a'r tiriogaethau a ganlyn yn Atodlen 3A: Gweriniaeth Angola, Gweriniaeth Botswana, Gweriniaeth De Affrica, Gweriniaeth Malaŵi, Gweriniaeth Mauritius, Gweriniaeth Mozambique, Gweriniaeth Namibia, Gweriniaeth Seychelles, Gweriniaeth Zambia, Gweriniaeth Zimbabwe, Teyrnas Eswatini a Theyrnas Lesotho.

Part 3 of these Regulations amends Parts 3 and 3B of the International Travel Regulations and inserts a new Part 3C and Schedule 3A into those Regulations. Regulation 4 of these Regulations removes regulation 12C of the International Travel Regulations which imposes special rules on any person travelling from South Africa and members of that person's household. Regulation 5 makes saving provision in connection with the removal of regulation 12C of the International Travel Regulations. Regulation 6 removes regulation 12D in Part 3B of the International Travel Regulations.

Part 4 of these Regulations inserts new regulations 12E and 12F and a Schedule 3A into the International Travel Regulations. Regulation 7(1) inserts a new provision relating to additional measures for specified countries and territories into the International Travel Regulations as new regulation 12E. New regulation 12E is similar to the previous regulation 12C, but is not specific to South Africa. Instead, it imposes additional measure on countries and territories listed in new Schedule 3A. Regulation 12E provides that when a person has been in a specified country or territory in the last 10 days and arrives in Wales on or after 9 January 2021, they and members of their household are required to isolate. Further, the categories of exempt persons as detailed at Schedule 2 to the International Travel Regulations do not apply, and there are more limited circumstances in which a person may leave isolation. Regulation 7(1) also inserts a new Regulation 12F, which imposes restrictions on the arrival of aircraft and vessels arriving directly from a country listed in the new Schedule 3A.

Regulation 7(2) inserts new Schedule 3A into the International Travel Regulations which lists those specified countries and territories subject to the additional measures in regulations 12E and 12F of those Regulations. Regulation 7(2) lists the following countries and territories in Schedule 3A: Kingdom of Eswatini, the Kingdom of Lesotho, the Republic of Angola, the Republic of Botswana, the Republic of Malawi, the Republic of Mauritius, the Republic of Mozambique, the Republic of Namibia, the Republic of Seychelles, the Republic of Zambia, the Republic of Zimbabwe and Republic of South Africa.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Cyfyngiadau er mwyn—

- (a) gosod gofynion ynysu llymach ar bobl sydd wedi bod mewn un o 11 gwlad restredig yn Affrica o fewn y cyfnod o 10 niwrnod cyn 4.00 a.m. ar 9 Ionawr 2021 ac ar unrhyw un ar yr un aelwyd â phobl o'r fath. Mae'r rhain yn wledydd lle y ceir tystiolaeth o ledaeniad cymunedol amrywiolyn newydd o'r coronafeirws;
- (b) gwneud mân ddiwygiad i ganiatáu i gartrefi arddangos aros ar agor mewn ardaloedd Lefel Rhybudd 4, er na chaniateir gweld eiddo mewn cysylltiad â gwerthiant neu osod mewn ardaloedd Lefel Rhybudd 4 ond os yw'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol;
- (c) dirymu'r darpariaethau sy'n ymwneud â dydd Nadolig sydd wedi eu disbyddu bellach a gwneud mân ddiwygiadau eraill i reoliadau 38 a 57.

Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiad technegol i destun Cymraeg rheoliad 14(1)(c) yn Rhan 4 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Part 5 of these Regulations amends the Restrictions Regulations to—

- (a) impose more stringent isolation requirements on people who have been in one of 11 listed African countries within the period of 10 days prior to 4.00 a.m. on 9 January 2021 and on anyone in the same household as such people. These are countries where there is evidence of community spread of a new variant of coronavirus;
- (b) make a minor amendment to permit show homes to stay open in Alert Level 4 areas, although viewing a property in connection with a sale or let is permitted in Alert Level 4 areas only if it is reasonably necessary and there is no reasonably practicable alternative;
- (c) revoke the provisions relating to Christmas day which are now spent and make other minor amendments to regulations 38 and 57.

Part 6 of these Regulations makes a technical amendment to the Welsh language text of regulation 14(1)(c) in Part 4 of the International Travel Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

2021 Rhif 20 (Cy. 7)

2021 No. 20 (W. 7)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol a Chyfyngiadau)
(Diwygio) (Cymru) 2021

The Health Protection
(Coronavirus, International Travel
and Restrictions) (Amendment)
(Wales) Regulations 2021

Cymeradwywyd gan Senedd Cymru

Approved by Senedd Cymru

Gwnaed am 4.07 p.m. ar 8 Ionawr 2021

Made at 4.07 p.m. on 8 January 2021

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 6.00 p.m. ar 8 Ionawr 2021*

*Laid before Senedd
Cymru at 6.00 p.m. on 8 January 2021*

Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 9 Ionawr 2021

*Coming into force at 4.00 a.m. on 9 January
2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 45B, 45C(1) and (3), 45F(2) and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1), make the following Regulations.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

The Welsh Ministers consider that restrictions and requirements imposed by these Regulations are proportionate to what they seek to achieve, which is a public health response to that threat.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

In accordance with section 45R of that Act the Welsh Ministers are of the opinion that, by reason of urgency, it is necessary to make this instrument without a draft having been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(1) 1984 c. 22. Part 2A was inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The function of making regulations under Part 2A is conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister as respects Wales, is the Welsh Ministers.

RHAN 1
Cyffredinol

PART 1
General

Enwi, dod i rym a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 9 Ionawr 2021.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

- (a) ystyr y “Rheoliadau Teithio Rhyngwladol” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(1);
- (b) ystyr y “Rheoliadau Cyfyngiadau” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(2).

Title, coming into force and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Restrictions) (Amendment) (Wales) Regulations 2021.

(2) These Regulations come into force at 4.00 a.m. on 9 January 2021.

(3) In these Regulations—

- (a) the “International Travel Regulations” means the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020(1);
- (b) the “Restrictions Regulations” means the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020(2).

RHAN 2

Diwygiadau i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

PART 2

Amendments to the list of exempt countries and territories in Schedule 3 to the International Travel Regulations

Hepgor gwledydd a thiriogaethau o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt

2. Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer y cofnodion a ganlyn—

- “Dinas Jerwsalem”
- “Gweriniaeth Botswana”
- “Israel”
- “Mauritius”
- “Seychelles”.

Removal of countries and territories from the list of exempt countries and territories

2. In Part 1 of Schedule 3 to the International Travel Regulations (exempt countries and territories outside the common travel area), omit the following entries—

- “the City of Jerusalem”
- “Israel”
- “Mauritius”
- “Republic of Botswana”
- “Seychelles”.

(1) O.S. 2020/574 (Cy. 132), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332) ac O.S. 2020/1645 (Cy. 345).

(2) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/163 (Cy. 340) ac O.S. 2020/165 (Cy. 345).

(1) S.I. 2020/574 (W. 132), as amended by S.I. 2020/595 (W. 136), S.I. 2020/714 (W. 160), S.I. 2020/726 (W. 163), S.I. 2020/804 (W. 177), S.I. 2020/817 (W. 179), S.I. 2020/840 (W. 185), S.I. 2020/868 (W. 190), S.I. 2020/886 (W. 196), S.I. 2020/917 (W. 205), S.I. 2020/942, S.I. 2020/944 (W. 210), S.I. 2020/962 (W. 216), S.I. 2020/981 (W. 220), S.I. 2020/1015 (W. 226), S.I. 2020/1042 (W. 231), S.I. 2020/1080 (W. 243), S.I. 2020/1098 (W. 249), S.I. 2020/1133 (W. 258), S.I. 2020/1165 (W. 263), S.I. 2020/1191 (W. 269), S.I. 2020/1223 (W. 277), S.I. 2020/1232 (W. 278), S.I. 2020/1237 (W. 279), S.I. 2020/1288 (W. 286), S.I. 2020/1329 (W. 295), S.I. 2020/1362 (W. 301), S.I. 2020/1477 (W. 316), S.I. 2020/1521 (W. 325), S.I. 2020/1602 (W. 332) and S.I. 2020/1645 (W. 345).

(2) S.I. 2020/1609 (W. 335) as amended by S.I. 2020/1610 (W. 336), S.I. 2020/163 (W. 340) and S.I. 2020/165 (W. 345).

Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2

3.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person (“P”)—

- (a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 9 Ionawr 2021 neu wedi hynny, a
- (b) wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2 ddiwethaf—
 - (i) o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy’n dod i ben â’r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a
 - (ii) cyn 4.00 a.m. ar 9 Ionawr 2021.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2, i’w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw’n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o’r fath.

RHAN 3

Diwygiadau i Ran 3 a Rhan 3B o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Diwygiad i Ran 3 (gofyniad i ynysu etc.) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

4. Hefgorer rheoliad 12C (rheolau arbennig sy’n berthnasol i bobl sy’n teithio o Dde Affrica) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Darpariaeth arbed mewn cysylltiad â rheoliad 4

5. Pan fo rheoliad 12C o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gymwys i berson, yn union cyn 4.00 a.m. ar 9 Ionawr 2021, mae’n parhau i fod yn gymwys i’r person hwnnw er gwaethaf ei ddirymu gan reoliad 4.

Hefgor Rhan 3B (teithio o Dde Affrica) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

6. Hefgorer Rhan 3B (teithio o Dde Affrica) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Transitional provision in connection with regulation 2

3.—(1) Paragraph (2) applies where a person (“P”)—

- (a) arrives in Wales at or after 4.00 a.m. on 9 January 2021, and
- (b) was last in a country or territory listed in regulation 2—
 - (i) within the period of 10 days ending with the day of P’s arrival in Wales, and
 - (ii) before 4.00 a.m. on 9 January 2021.

(2) P is, by virtue of having been in a country or territory listed in regulation 2 to be treated for the purposes of regulations 7(1) and 8(1) of the International Travel Regulations as having arrived in Wales from, or having been in, a non-exempt country or territory.

PART 3

Amendments to Part 3 and Part 3B of the International Travel Regulations

Amendment to Part 3 (requirement to isolate etc.) of the International Travel Regulations

4. Omit regulation 12C (special rules applicable to persons travelling from South Africa) of the International Travel Regulations.

Saving provision in connection with regulation 4

5. Where immediately before 4.00 a.m. on 9 January 2021 regulation 12C of the International Travel Regulations applies to a person, it continues to apply to that person despite its revocation by regulation 4.

Removal of Part 3B (travel from South Africa) of the International Travel Regulations

6. Omit Part 3B (travel from South Africa) of the International Travel Regulations.

RHAN 4

Ychwanegu Rhan 3C ac Atodlen 3A at y
Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Mewnosod Rhan 3C (teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A)

7.—(1) Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 12 mewnosoder—

“RHAN 3C

Teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn
Atodlen 3A

Mesurau ychwanegol sy'n gymwys i bersonau sy'n teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A

12E.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo gofyniad ynysu (o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2)) yn cael ei osod ar berson (“P”) am fod P—

- (a) wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A, neu
- (b) wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

(2) Mae rheoliadau 7(1) ac 8(1) i'w darllen mewn perthynas â P fel pe bai cyfeiriadau at “gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt” yn gyfeiriadau at “gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A”.

(3) Mae'r gofyniad ynysu sydd wedi ei osod ar P yn rhinwedd rheoliad 7(1) neu 8(1) fel y'i haddesir gan baragraff (2), hefyd wedi ei osod ar bob aelod o aelwyd P.

(4) Er gwaethaf rheoliad 9(2), mae rheoliadau 7 ac 8 yn gymwys i P.

(5) Nid yw aelod o aelwyd P wedi ei esemptio rhag y gofyniad i ynysu yn rhinwedd rheoliad 9(2).

(6) Yn unol â hynny nid yw P nac unrhyw aelod o aelwyd P i'w drin fel person a ddisgrifir mewn unrhyw baragraff o Atodlen 2.

(7) At ddibenion rheoliad 10, mae aelod o aelwyd P i'w drin fel pe bai P oedd y person hwnnw.

PART 4

Addition of Part 3C of and Schedule 3A to the
International Travel Regulations

Insertion of Part 3C (travel from a country or territory listed in Schedule 3A)

7.—(1) The International Travel Regulations are amended as follows.

(2) After regulation 12 insert—

“PART 3C

Travel from a country or territory listed in
Schedule 3A

Additional measures applicable to persons travelling from a country or territory listed in Schedule 3A

12E.—(1) This regulation applies where an isolation requirement (within the meaning given by regulation 10(2)) is imposed on a person (“P”) because P—

- (a) has arrived in Wales from a country or territory listed in Schedule 3A, or
- (b) has, within the period of 10 days ending with the day of P's arrival in Wales, been in a country or territory listed in Schedule 3A.

(2) Regulations 7(1) and 8(1) are to be read in relation to P as if references to “a non-exempt country or territory” were references to “a country or territory listed in Schedule 3A”.

(3) The isolation requirement imposed on P by virtue of regulation 7(1) or 8(1) as modified by paragraph (2), is also imposed on all members of P's household.

(4) Despite regulation 9(2), regulations 7 and 8 apply to P.

(5) A member of P's household is not exempt from the isolation requirement by virtue of regulation 9(2).

(6) Accordingly neither P nor any member of P's household is to be treated as a person described in any paragraph of Schedule 2.

(7) For the purposes of regulation 10, a member of P's household is to be treated as if that person were P.

(8) Mae rheoliad 10 yn gymwys i P (ac aelod o aelwyd P yn rhinwedd paragraff (7)) fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn lle paragraff (4) o'r rheoliad hwnnw—

“(4) Caiff P adael y fangre a bod y tu allan iddi—

(a) cyhyd ag y bo'n angenrheidiol—

(i) i geisio cynhorthwy meddygol, pan fo angen hynny ar frys neu yn unol â chyngor ymarferydd meddygol cofrestredig;

(ii) i osgoi salwch difrifol, anaf difrifol neu risg arall o niwed difrifol;

(iii) i gyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu i gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;

(b) os yw'n ofynnol iddo wneud hynny gan gwnstabl;

(c) i deithio at ddiben gadael Cymru.”

Gwahardd awyrennau a llestrau sy'n teithio'n uniongyrchol o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A rhag cyrraedd

12F.—(1) Ni chaiff y person sy'n rheoli awyren neu lestr neu sydd â rheolaeth dros awyren neu lestr yr oedd ei man ymadael diwethaf yn wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A beri na chaniatáu i'r awyren neu'r llestr gyrraedd Cymru, oni bai bod gwneud hynny yn rhesymol angenrheidiol er mwyn sicrhau—

(a) diogelwch yr awyren neu'r llestr, neu

(b) iechyd a diogelwch unrhyw berson ar ei bwrdd neu ar ei fwrdd.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i—

(a) awyren a weithredir yn fasnachol neu lestr a weithredir yn fasnachol nad yw'n cludo unrhyw deithwyr;

(b) awyren neu lestr a weithredir gan Lywodraeth ei Mawrhydi yn y Deyrnas Unedig neu i'w chefnogi;

(c) awyren neu lestr a oedd mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A ddiweddfaf 11 o ddiwrnodau neu ragor cyn cyrraedd Cymru.

(3) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr “cyrraedd” yw—

(i) mewn perthynas ag awyren, glanio;

(8) Regulation 10 applies to P (and a member of P's household by virtue of paragraph (7)) as if, for paragraph (4) of that regulation, there were substituted—

“(4) P may leave and be outside of the premises—

(a) for as long as is necessary—

(i) to seek medical assistance, where this is required urgently or on the advice of a registered medical practitioner;

(ii) to avoid serious illness, serious injury or other risk of serious harm;

(iii) to fulfil a legal obligation, including attending court or satisfying bail conditions, or to participate in legal proceedings;

(b) if required to do so by a constable;

(c) to travel for the purpose of leaving Wales.”

Prohibition on the arrival of aircraft and vessels travelling directly from a country or territory listed in Schedule 3A

12F.—(1) The person with management or control of an aircraft or vessel whose last point of departure was a country or territory listed in Schedule 3A must not cause or permit it to arrive in Wales, unless it is reasonably necessary for it to do so to secure—

(a) the safety of the aircraft or vessel, or

(b) the health and safety of any person aboard it.

(2) Paragraph (1) does not apply to—

(a) a commercially operated aircraft or vessel carrying no passengers;

(b) an aircraft or vessel operated by or in support of Her Majesty's Government in the United Kingdom;

(c) an aircraft or vessel which was last in a country or territory listed in Schedule 3A 11 or more days prior to its arrival in Wales.

(3) In this regulation—

(a) “arrive” means—

(i) in relation to an aircraft, to land;

(ii) mewn perthynas â llestr,
angori yn unrhyw fan;

(b) ystyr “teithiwr” yw person a gludir
mewn awyren neu ar lestr ac eithrio
aelod o’i chriw neu o’i griw.”

(3) Ar ôl Atodlen 3, mewnosoder—

(ii) in relation to a vessel, to moor
at any place;

(b) “passenger” means a person carried in or
on an aircraft or vessel other than a
member of its crew.”

(3) After Schedule 3, insert—

“ATODLEN 3A Rheoliadau 12E a 12F

Gwledydd a thiriogaethau sy’n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol

Gweriniaeth Angola
Gweriniaeth Botswana
Gweriniaeth De Affrica
Gweriniaeth Malaŵi
Gweriniaeth Mauritius
Gweriniaeth Mozambique
Gweriniaeth Namibia
Gweriniaeth Seychelles
Gweriniaeth Zambia
Gweriniaeth Zimbabwe
Teyrnas Eswatini
Teyrnas Lesotho”.

“SCHEDULE 3A Regulations 12E and 12F

Countries and territories subject to additional measures

Kingdom of Eswatini
Kingdom of Lesotho
Republic of Angola
Republic of Botswana
Republic of Malawi
Republic of Mauritius
Republic of Mozambique
Republic of Namibia
Republic of Seychelles
Republic of South Africa
Republic of Zambia
Republic of Zimbabwe”.

RHAN 5

Diwygio’r Rheoliadau Cyfyngiadau

Diwygio’r Rheoliadau Cyfyngiadau

8.—(1) Mae’r Rheoliadau Cyfyngiadau wedi eu
diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer rheoliad 4(7).

(3) Yn rheoliad 11A—

(a) yn y pennawd, yn lle “yn Ne Affrica” rhodder
“mewn gwledydd penodol”;

(b) ym mharagraff (1)—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle “9.00 a.m. ar 24
Rhagfyr 2020” rhodder “4.00 a.m. ar 9
Ionawr 2021”;

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle “9.00 a.m. ar
24 Rhagfyr 2020” rhodder “4.00 a.m. ar
9 Ionawr 2021”;

(iii) yn is-baragraff (c), yn lle “yn Ne Affrica”
rhodder “mewn gwlad restredig”;

PART 5

Amendment to the Restrictions Regulations

Amendment to the Restrictions Regulations

8.—(1) The Restrictions Regulations are amended as
follows.

(2) Omit regulation 4(7).

(3) In regulation 11A—

(a) in the heading, for “South Africa” substitute
“certain countries”;

(b) in paragraph (1)—

(i) in sub-paragraph (a), for “9.00 a.m. on 24
December 2020” substitute “4.00 a.m. on
9 January 2021”;

(ii) in sub-paragraph (b), for “9.00 a.m. on
24 December 2020” substitute “4.00 a.m.
on 9 January 2021”;

(iii) in sub-paragraph (c), for “South Africa”
substitute “a listed country”;

(c) ym mharagraff (2), yn lle “y gadawodd P De Affrica” rhodder “yr oedd P mewn gwlad restredig ddiwethaf”;

(d) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

“(4) At ddibenion y rheoliad hwn, mae’r gwledydd a ganlyn yn wledydd rhestredig —

- (a) Teyrnas Eswatini;
- (b) Teyrnas Lesotho;
- (c) Gweriniaeth Angola;
- (d) Gweriniaeth Botswana;
- (e) Gweriniaeth Malaŵi;
- (f) Gweriniaeth Mauritius;
- (g) Gweriniaeth Mozambique;
- (h) Gweriniaeth Namibia;
- (i) Gweriniaeth Seychelles;
- (j) Gweriniaeth Zambia;
- (k) Gweriniaeth Zimbabwe.”

(4) Yn rheoliad 11B—

(a) yn y pennawd, yn lle “yn Ne Affrica” rhodder “mewn gwledydd penodol”;

(b) yn is-baragraff (2)(c), yn lle “neu risg arall o niwed difrifol” rhodder “, risg arall o niwed difrifol neu i gyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i’r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu i gymryd rhan mewn achos cyfreithiol”.

(5) Yn rheoliad 38(c), yn y testun Saesneg, ar ôl “(2)” mewnosoder “of”.

(6) Yn rheoliad 57(1)(t)(i), yn lle “, o fewn unrhyw ardal Haen 4 neu o fewn unrhyw ardal lle y gosodir cyfyngiadau llymach na’r rhai sy’n gymwys yn yr ardal Haen 3” rhodder “neu o fewn yr ardal Haen 4”.

(7) Ym mharagraff 48 o Atodlen 4, yn lle “, swyddfydd gwerthiant datblygwyr a chartrefi arddangos” rhodder “a chartrefi arddangos”.

(8) Hepgorer Atodlen 6.

(c) in paragraph (2), for “left South Africa” substitute “was last in a listed country”;

(d) after paragraph (3) insert—

“(4) For the purposes of this regulation, the following are listed countries—

- (a) Kingdom of Eswatini;
- (b) Kingdom of Lesotho;
- (c) Republic of Angola;
- (d) Republic of Botswana;
- (e) Republic of Malawi;
- (f) Republic of Mauritius;
- (g) Republic of Mozambique;
- (h) Republic of Namibia;
- (i) Republic of Seychelles;
- (j) Republic of Zambia;
- (k) Republic of Zimbabwe.”

(4) In regulation 11B—

(a) in the heading, for “South Africa” substitute “certain countries”;

(b) in sub-paragraph (2)(c), for “or other risk of serious harm” substitute “, other risk of serious harm or to fulfil a legal obligation, including attending court or satisfying bail conditions, or to participate in legal proceedings”.

(5) In regulation 38(c), in the English language text, after “(2)” insert “of”.

(6) In regulation 57(1)(t)(i), for “, any Tier 4 area or any other area in which restrictions are imposed that are stricter than those applicable in the Tier 3 area” substitute “or the Tier 4 area”.

(7) In paragraph 48 of Schedule 4, for “, developer sales offices and show homes” substitute “and developer sales offices”.

(8) Omit Schedule 6.

RHAN 6

Diwygiad i destun Cymraeg Rhan 4 o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Diwygiad i Ran 4 (gorfodi a throseddau) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

9. Yn rheoliad 14 (troseddau) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, yn y testun Cymraeg, yn is-baragraff (1)(c) hepgorer “neu”.

PART 6

Amendment to the Welsh language text of Part 4 of the International Travel Regulations

Amendment to Part 4 (enforcement and offences) of the International Travel Regulations

9. In regulation 14 (offences) of the International Travel Regulations, in the Welsh language text, in sub-paragraph (1)(c) omit “neu”.

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Am 4.07 p.m. ar 8 Ionawr 2021

Minister for Health and Social Services, one of the
Welsh Ministers
At 4.07 p.m. on 8 January 2021

©©Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/20>

ISBN 978-0-348-11958-9



9 780348 119589